COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD LLUN, 6 GORFFENNAF 2026 16:00

Presennol

Y Cynghorydd Jane Gebbie – y Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | S J Bletsoe | E L P Caparros | G Chappell |
| C Davies | M J Evans | | RM Granville |
| M R John | Legeyt | I M Spiller | T Thomas |
| Y Walton-Davies | A Wathan | MJ Williams | R Williams |
| E D Winstanley | T Wood | D Williams | K Hughes |
| H Stone | L Pritchard | M Thomas | M Davies |
| D Evans | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jason Frowen | Swyddog Cyswllt Tref a Chymuned |
| Louise Connolly | Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Nimi Chandrasena | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Cymorth |

## 49. Ymddiheuriadau am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd John Spanswick a'r Cynghorydd Paula Ford. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 06/07/26 |

## 50. Datganiadau o fuddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Fe wnaeth y Cynghorydd Heidi Bennett ddatgan buddiant mewn perthynas â'r adroddiad ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cyswllt Tref a Chymuned oherwydd ei rôl gyda BAVO. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 06/07/26 |

## 51. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD : Cymeradwyo cofnodion y 3ydd o Ragfyr 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 06/07/26 |

## 52. Cyswllt Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cyngor Tref a Chymuned

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD : Nododd aelodau Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned yr adroddiad a'r Protocol • wedi'i ddiweddaru. Cytunwyd ar y canlynol:<br><br>• Roedd yr adroddiadau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod o fewn y pecyn o ddogfennau (yn gysylltiedig â'r cyfarfod) ac roedd clercod y Cynghorau Tref a Chymuned wedi cael mynediad atynt eisoes.<br>• Mae'r astudiaethau achos wedi eu dyddio er mwyn eglurder.<br>• Cryfhau'r weithdrefn ar gyfer gosod eitemau ar yr agenda pan fyddant yn berthnasol i nifer o gynghorau cymuned.<br>• Cytunodd swyddog CAT (Trosglwyddo Asedau Cymunedol) i drefnu cyfarfod gyda Chynghorau Cymuned i drafod Lonydd Tawel.<br>• Atgoffa/Crynodeb o'r dulliau cyfathrebu a'r offer Cyfathrebu i'w ddarparu i Glercod. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 06/07/26 |

## 53. Cyfranogiad Clercod Tref a Chymuned yn y Dyfodol yn Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD : Nododd y Fforwm gynnwys yr adroddiad a bu'n trafod y posibilrwydd o gynrychiolwyr y Clercod yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd y Fforwm yn y dyfodol mewn rôl ymgynghorol. Trafodwyd y canlynol:<br>• Pryderon i gael eu cynrychioli'n gywir pan fo achosion lle mae un Clerc yn cynrychioli nifer o Gynghorau Cymuned.<br>• Y posibilrwydd o iawndal ariannol i Glercod sy'n mynychu. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 06/07/26 |

## 54. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 06/07/26 |

I wylio rhagor o'r drafodaeth a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 16:33.